



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2020-2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English

www.npt.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	3
Rhagarweiniad	4
Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol	4
Atebolrwydd.....	4
Cydymffurfio	5
Cydymffurfiaeth Gyffredinol	7
Safonau Cyflwyno Gwasanaethau	9
Safonau Llunio Polisiâu	10
Safonau gweithredol	11
Gofynion Deddfwriaethol Penodol	13
Cwynion	15
Cyfle i Ddweud eich Dweud	17
Mesurau	18

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch polisi@npt.gov.uk

Rhagair

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymrwymedig i egwyddor Safonau'r Gymraeg ac mae'n ymdrechu i gydymffurfio â'r safonau fel y'u cymhwysir i ni mewn amgylchedd sy'n parhau i fod yn un cyfyngedig o ran cyllid ac adnoddau.

Mae cychwyniad pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ein gwasanaethau yn ystod 2020-2021, gyda llawer o'n gweithlu'n cael eu hadleoli i feysydd gwasanaeth eraill fel rhan o ymateb y cyngor i'r pandemig ac i gefnogi ein preswylwyr yn yr amseroedd digynsail hyn. Bu'n rhaid i ni wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym wedi cyflawni ein gwasanaethau, gan atal gwasanaethau hyd yn oed mewn rhai achosion, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf.

Gyda phopeth sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn ymwybodol na ellir ystyried y Gymraeg ar wahân i'r agenda cydraddoldeb ehangach ac mae effeithiau'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod 2020-2021 yn berthnasol i bob un ohonom. Mae ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn elfennau allweddol o'r sgwrs ehangach sy'n digwydd ar draws cymdeithas a rhaid cynnwys y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn hyn o beth. I'r perwyl hwn, byddwn yn gweithio i sicrhau bod mentrau'n cael eu datblygu, bod deunydd ar gael a bod digwyddiadau'n cael eu cynnal (pan fydd y cyfyngiadau'n cael eu codi) i helpu i annog gwell dealltwriaeth a dathlu ein cymunedau amrywiol.

Rydym yn cydnabod y bydd 2021-2022 yn parhau i fod yn heriol wrth i ni ymateb i'r pandemig parhaus a chefnogi ein cymunedau ond hefyd wrth i ni ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd dros y flwyddyn ddiwethaf i helpu i lywio ein dyfodol.

Karen Jones
Prif Weithredwr

Rhagarweiniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn tynnu sylw at ein gwaith o weithredu Safonau'r Gymraeg fel y'u cymhwysir i'r cyngor yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith.

Nid oedd 2020-2021 yn flwyddyn 'arferol', gyda'r pandemig yn effeithio ar wasanaethau, staff yn cael eu hadleoli a ffyrdd newydd o weithio wedi dod yn fwy arferol ers cychwyniad y pandemig. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn glir drwy gydol y cyfnod hwn y byddai gwasanaethau Cymraeg yn parhau lle bo hynny'n bosib – er y cafwyd rhai achosion lle nad oedd hyn yn bosib, yn fwyaf nodedig gyda hysbysiadau iechyd a diogelwch yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf.

Er bod y llynedd wedi bod yn heriol, roedd hefyd yn gyfle i ailasesu ein darpariaeth Gymraeg ar gyfer preswylwyr a staff ac mae nifer o newidiadau i'n prosesau a'n gweithdrefnau mewnol yn cael eu hystyried/rhoi ar waith i helpu sicrhau ein bod mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn y blynyddoedd i ddod.

Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o sut rydym ni, fel cyngor, wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg ac yn rhoi gwybodaeth am feysydd penodol: nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a gofynion yr iaith ar gyfer swyddi gwag fel sy'n ofynnol o dan Fesur y Gymraeg (2011) a Safonau'r Gymraeg (Rheoliadau Rhif 1) 2015.

Mae'r safonau sy'n berthnasol i'r cyngor o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi'u cynnwys yn ein [hysbysiad cydymffurfio](#).

Atebolrwydd

Y cyngor sy'n bennaf gyfrifol am roi'r safonau ar waith, gyda'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau

y cydymffurfir â'r safonau. Yn ogystal, rydym yn cydnabod bod gan bob aelod o staff rôl i'w chwarae er mwyn gweithredu'r safonau'n llwyddiannus.

Yn ôl ein trefniadau llywodraethu, mae'n ofynnol i'r Cabinet fonitro'r Adroddiad Blyneddol, a bydd y Pwyllgor Craffu'r Cabinet yn cyflawni rôl bwysig wrth sicrhau y cynhelir cynnydd ar berfformiad.

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol yn cefnogi'r Prif Weithredwr ac aelodau etholedig, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu'r safonau. Cadeirir y grŵp gan Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb ac mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth yn ogystal â sefydliadau cydraddoldeb lleol.

Mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn cefnogi'r gwaith o weinyddu'r safonau a'u rhoi ar waith, ac yn helpu i ddatrys unrhyw broblemau a allai godi yn gynnar ac yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau'n unol â'r dyletswyddau a osodir ar y cyngor yn ogystal â helpu i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith staff.

Mae'r holl wybodaeth a'r deunydd cefnogi sy'n ymwneud â rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith ar gael ar y fewnwyd, ac maent yn hygyrch i bob aelod o staff. Cynyddir ymwybyddiaeth o ofynion y safonau drwy'r Grŵp Rheoli Corfforaethol, timau rheoli cyfarwyddiaethau a chyfarfodydd tîm yn ogystal â thrwy ddulliau cyhoeddusrwydd mewnol y cyngor e.e. y cylchlythyr ar-lein 'In the Loop'.

Cydymffurfio

Adroddiad Monitro Comisiynydd y Gymraeg 2019-2020

Ym mis Awst 2020, derbyniom adroddiad monitro Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2019-2020. Roedd y cyngor yn rhan o sampl ar hap o sefydliadau a aseswyd mewn 10 maes gweithgarwch: gohebiaeth, galwadau ffôn, ffurflenni, datganiadau i'r wasg, llyfrynnau a thafllenni, hunaniaeth gorfforaethol, gwedudalennau, cyfryngau cymdeithasol, swyddi newydd a gwag a derbynfeydd.

Er bod ein datganiadau i'r wasg, ein pyst ar gyfryngau cymdeithasol ac enghreifftiau o'n hunaniaeth gorfforaethol ynghyd â'r mwyafrif helaeth o'n gwedudalennau ar gael yn llawn yn Gymraeg, roedd meysydd sylweddol lle'r oedd ein perfformiad yn siomedig:

- O'r tri darn o ohebiaeth Gymraeg a dderbyniwyd, dim ond dau a atebwyd yn Gymraeg
- Dim ond un o bob tair galwad ffôn yr ymdriniwyd â hwy yn gyfan yn Gymraeg.
- Dwy allan o dair enghraifft o lyfrynnau/daflenni etc., oedd yn gwbl Gymraeg.
- Nid oedd staff y dderbynfa yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg er bod arwydd wedi'i arddangos yn nodi fel arall.
- Dim ond un o bob tair ffurflen oedd ar gael yn gwbl Gymraeg.

Roedd y Comisiynydd o'r farn bod 'amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol' mewn tri maes, a gofynnwyd i ni ymateb:

- Galwadau ffôn a wnaed yn Gymraeg i'n prif linell ffôn - y mater hwn oedd testun y gŵyn, [CSG 650](#) a dderbyniwyd ar 2 Hydref 2019 ac a benderfynwyd wedi hynny ym mis Awst 2020 - cyflwynwyd a lledaenwyd proses newydd i bob aelod o'r tîm gwasanaethau cwsmeriaid ym mis Hydref 2019 (cyhoeddwyd nodiadau atgoffa eto ym mis Hydref a mis Tachwedd 2020).
- Roedd 1/3 o'r ffurflenni a arolygwyd ar gael yn Gymraeg – ar ôl derbyn manylion pellach roedd camau priodol yn cael eu hystyried gan Grŵp Swyddogion y Gymraeg, gan weithio'n agos gyda'n Tîm Gwe a'r gwasanaethau perthnasol, a byddant yn cael eu cynnwys yn y rhaglen waith i roi sylw iddynt ar unwaith.
- Staff y dderbynfa yn methu ymdrin ag unrhyw un o'r ymholiadau Cymraeg yn Gymraeg – 'o ddiwedd mis Mawrth 2020 mae ein canolfannau dinesig wedi bod ar gau i'r cyhoedd ac mae'n annhebygol y bydd y sefyllfa hon yn newid yn y dyfodol agos. Pan fydd ein canolfannau dinesig yn ailagor i'r cyhoedd, mae'n debygol y bydd gwasanaetha'r dderbynfa yn cael eu darparu'n wahanol, newidiadau a oedd yn cael eu hystyried cyn y cyfyngiadau symud.'

Ar hyn o bryd mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn edrych ar y problemau cydymffurfio a godwyd yn yr adroddiad, ynghyd â phroblemau a nodwyd yn ein gweithgareddau monitro ein hunain, i benderfynu ar y ffordd orau o'u datrys a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

Cydymffurfiaeth Gyffredinol

Gyda chychwyniad pandemig COVID-19, mae 2020-2021 wedi bod yn flwyddyn gwbl wahanol, gyda gwasanaethau yr effeithir arnynt gan newidiadau mewn arferion gwaith, adleoli staff, ynghyd â'r angen i ddarparu ymateb a chefnogaeth i'r preswylwyr hynny sydd, ynghyd â staff, wedi gweld y flwyddyn gyfan yn heriol ac, mewn llawer o achosion, yn brofiad brawychus.



Fodd bynnag, drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweithio i sicrhau bod ein gwasanaethau Cymraeg ar gael – hyd yn oed os ydynt ar lefel is mewn rhai achosion. Er ein bod wedi treulio'r rhan gyntaf y flwyddyn yn ymateb yn bennaf i'r pandemig, gwelwyd ychydig o weithgarwch yn rhan olaf y flwyddyn:

Recriwtio siaradwyr Cymraeg i feysydd allweddol – recriwtiodd ein Tîm Cyfathrebu a Gwasanaethau Digidol ddau siaradwr Cymraeg sy'n rhan annatod o'n cyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol, cyhoeddusrwydd, gwasanaethau cyhoeddusrwydd POD, etc.

Cwynion - cawsom lai o gwynion mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn (cyfanswm o dri). Diwygiwyd a diweddarwyd ein [Polisi Sylwadau, Canmoliaethau a Chwynion](#) yn unol ag argymhellion Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru. Gwnaethom fanteisio ar y cyfle hwn i egluro'r broses ymhellach mewn perthynas â gofynion Safonau'r Gymraeg.

[Strategaeth Hybu'r Gymraeg](#) - cyhoeddwyd yr ail [adroddiad cynnydd](#) am gyfnod o chwe mis yn unig (o fis Hydref 2019 i fis Mawrth 2020) er mwyn aildrefnu'r cyfnod adrodd i gyd-fynd â chyfnod adrodd adroddiadau statudol eraill. Oherwydd y cyfnod adrodd byrrach, yr effeithiwyd arno gan gam cynnar y pandemig, prin oedd y cynnydd y gellid ei adrodd.


Diwrnod Hawliau'r Gymraeg (7 Rhagfyr 2020). Yn dilyn dathliad ar raddfa fach ar Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg cyntaf yn 2019, roeddem yn bwriadu dathlu'r ail Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg yn ehangach. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa barhaus yn golygu y cynhaliwyd ymgyrch gyhoeddusrwydd cyfryngau cymdeithasol lai, yn bennaf gydag ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gyfyngedig, yn ein diweddariad wythnosol, Sway ar gyfer staff ac ar ein hadran newyddion ar gyfer gweithwyr ar y fewnrwyd.



Safonau Cyflwyno Gwasanaethau

Mae 2020-2021 wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb, gyda chyfyngiadau i'r rheini sy'n gwarchod, cyfyngiadau symud, gwasanaethau llai/wedi'u hail-lunio, a staff sy'n gweithio gartref a/neu mewn rolau eraill, ac mae hyn oll yn golygu bod hon yn flwyddyn i'w chofio, neu i'w hanghofio hyd yn oed.

Mae darparu gwasanaethau yn gyffredinol wedi bod yn her ac mae darparu gwasanaeth Cymraeg wedi bod yn fwy anos na'r arfer i rai o'n meysydd gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn. Er bod y mwyafrif helaeth o'r staff wedi gallu gweithio gartref, gwahoddwyd y rhai nad oeddent yn gallu gwneud hynny, oherwydd eu cyflyrau iechyd eu hunain, cyfrifoldebau gofalu neu oherwydd bod eu gwaith wedi newid yn sylweddol neu wedi'i atal dros dro, i ystyried adleoli. Cytunodd cannoedd o staff yn wirfoddol i adleoli dros dro i rolau eraill; gan gynnwys secondiad i'r Tîm Cyfathrebu, Gwastraff ac Ailgylchu, Gwasanaethau Cwsmeriaid, Diogel ac Iach CNPT, Profi, Olrhain a Diogelu (POD).



Gweithiodd 2000+ o staff gartref yn ystod 4 wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud



Er y gwnaed penderfyniad yn gynnar yn y cyfyngiadau symud i'r holl gyfathrebiadau mewn perthynas â COVID-19 fod yn Saesneg, dim ond er mwyn darparu gwybodaeth cyn gynted â phosib (penderfyniad a wnaed ar sail iechyd a diogelwch yn ogystal ag oherwydd y mater mwy ymarferol o adnoddau cyfyngedig mewn cyfnod mor heriol) dros yr haf roeddem yn gallu ailgyflwyno cyfathrebiadau dwyieithog. Gyda recriwtio dau siaradwr

Cymraeg i'r Tîm Cyfathrebu yn ystod yr hydref rydym wedi sicrhau bod gallu parhaus ar gyfer pob cyfathrebiad yn y dyfodol.

Tuag at ddiwedd 2020-2021, dechreuwyd adolygiad o'n cydymffurfiaeth a'n gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg, a fydd yn parhau dros y flwyddyn i ddod, er mwyn helpu i sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol ac ymatebol yn y dyfodol a helpu i ddathlu'r iaith a'r diwylliant ymhlith staff ac yn ein cymunedau.

Gohebiaeth yn Gymraeg - cafwyd rhai achosion lle mae'r cais i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg wedi'i wneud drwy gamgymeriad ac, o ganlyniad, mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg wedi ailgynllunio'r ffurflen gais, a fydd yn fyw erbyn haf 2021, i wella eglurder o ran ei diben.

Mae 77 o bobl wedi nodi eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth gennym yn Gymraeg



Cyfarfodydd y cyngor - yn ystod y pandemig ac yn dilyn mabwysiadu'r ddeddfwriaeth i ddileu'r gofyniad i aelodau gael eu gweld a'u clywed mewn cyfarfodydd ffurfiol y cyngor, gwnaethom ailddechrau cynnal cyfarfodydd allweddol yn gyflym gan ddefnyddio *Microsoft Teams*. Yn anffodus, nid yw'r llwyfan hwn yn cefnogi cyfarfodydd dwyieithog ac o ganlyniad bydd holl gyfarfodydd y cyngor yn cael eu symud i *Zoom*, sydd â'r gallu hwn, yn ystod 2021-2022.

Safonau Llunio Polisiâu

Mae gofynion y safonau llunio polisi wedi'u hymgorffori yn fframwaith Aseiad Effaith Integredig (AEI) y cyngor. Cynhelir y broses asesu effaith ar gyfer pob polisi/menter newydd a diwygiedig ac felly ystyrir cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg bob tro.

Mae arweiniad cynhwysfawr ar y broses AEI ar gael i'r holl staff ar y fewnwyd. Yn ogystal, darparwyd hyfforddiant yn flaenorol ar gyfer y staff hynny sy'n gyfrifol am ymgymryd ag AEI fel rhan o'u cyfrifoldebau. Mae sesiynau hyfforddi pellach yn cael eu hystyried ar gyfer 2021-2022.


Y bwriad oedd cynnal adolygiad o'r fframwaith AEI yn ystod 2020-2021 i sicrhau ei fod wedi'i wreiddio'n ymarferol ond oherwydd cychwyniad y pandemig bydd yn cael ei gynnal yn ystod 2021-2022 yn lle.

Safonau gweithredol

Er bod polisïau sy'n ymwneud â chyflogaeth staff wedi'u llunio yn Gymraeg ac ar gael ar ein mewnwrwyd hyd yma, nid oes unrhyw aelod o staff wedi dymuno derbyn gwybodaeth am eu cyflogaeth yn Gymraeg.

Mae dogfennau i helpu a chefnogi staff i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i breswylwyr ac ymwelwyr â Chastell-nedd Port Talbot ar gael ar ein mewnwrwyd. Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf mae wedi bod yn amlwg bod angen adolygu'r dudalen wybodaeth hon er mwyn ystyried y gwersi a ddysgwyd o ganlyniadau cwynion, gwell arweiniad ar gydymffurfiaeth yn ogystal â deunydd hyrwyddo, gyda Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn gyfrifol am arwain yr adolygiad.

Roedd nifer y staff a nododd fod ganddynt sgiliau Cymraeg yn ystod 2020-2021 yn parhau'n gymharol isel.





Mae'r nifer sy'n fodlon/yn gallu defnyddio eu sgiliau iaith fel rhan o'u gwaith wedi cynyddu o 126 yn 2019-2020: mae ein cyfeiriadur gweithwyr yn rhestru'r rhai sy'n barod i ddefnyddio'u sgiliau iaith ac mae ar gael i'r holl staff drwy ein mewnrwyd.

146 o siaradwyr Cymraeg sydd ar ein yfeiriadur gweithwyr

Mae gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth ar ddefnyddio Safonau'r Gymraeg a chydymffurfio â hwy ar gael i'r holl staff drwy dudalen Gymraeg yr Hwb Perfformiad ar y fewnrwyd. Gan fod peth amser wedi mynd heibio ers i'r dudalen gael ei datblygu, mae'n amserol cynnal adolygiad i sicrhau bod y dudalen yn parhau i fod yn adnodd addas sy'n cynnwys canllawiau, gwybodaeth a deunydd hyrwyddo wedi'u diweddarau.

Er mwyn sicrhau bod sgiliau iaith yn cael eu hasesu'n gyson ar draws meysydd gwasanaeth, mae fframwaith asesu iaith newydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r gwaith o weithredu system AD/Cyflogres newydd. Bydd y fframwaith yn galluogi staff i asesu eu sgiliau iaith, ac yna diweddarau eu cofnodion AD, yn unol â meini prawf a gydnabyddir yn eang. Yn anecdotaidd, mae staff yn tanbriso lefel eu sgiliau ac felly'r gobaith yw y bydd y broses newydd hon yn helpu i fagu hyder ac annog staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y gwaith. Bydd y broses asesu hefyd yn helpu rheolwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r sgiliau iaith yn eu meysydd gwasanaeth wrth ystyried cynllunio/recruiwio gweithlu.

Rydym yn parhau i weithio i gynyddu niferoedd y staff sy'n siarad Cymraeg ac achubodd llawer ar y cyfle yn ystod y flwyddyn i ddilyn cyrsiau e-ddysgu Cymraeg: Cwblhaodd 258 o staff (243 o'n Cyfarwyddiaeth Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes) gyrsiau e-ddysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn.



Gofynion Deddfwriaethol Penodol

Swyddi gwag - gofynion sgiliau iaith Gymraeg

Categori	Nifer y swyddi	Canran y swyddi
Hanfodol	2	1 %
Dymunol	83	28 %
Angen dysgu Cymraeg	Dim	dim
Nid oes angen unrhyw sgiliau Cymraeg	206	71%

Sgiliau Iaith Staff

Cyfddiaeth/Gwasanaeth	Sgiliau Cymraeg							Cyfanswm
	Siaradwr ac ysgrifennwr gweddol rhugl	Siaradwr gweddol rhugl	Siaradwr ac ysgrifennwr rhugl	Siaradwr rhugl	Dysgwr Cymraeg	Ychydig iawn o wybodaeth neu ddim gwybodaeth	Mae'n well gen i beidio â dweud	
Prif Swyddogion	0	1	1	0	1	2	0	5
Swyddfa'r Prif Weithredwr								
Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	2	3	6	1	11	73	1	97
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	5	2	5	1	17	63	0	93
Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes								
Cyfranogiad	13	7	20	5	56	436	31	568
Trawsnewid	5	2	13	9	35	174	9	247
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol								
Gwasanaethau Digidol	4	1	1	0	7	93	2	108
Gwasanaethau Ariannol	3	4	1	0	10	138	1	157
Amgylchedd								
Peirianeg a Thrafnidiaeth	4	3	5	2	11	108	0	133
Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd	3	7	13	1	59	149	3	235
Eiddo ac Adfywio	0	5	3	2	12	117	3	142
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	1	5	8	5	16	168	1	204
Gwasanaethau Gofal Strydoedd	9	11	14	7	33	416	10	533
Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai								
Gwasanaethau i Oedolion	15	11	12	9	46	448	4	505
Gwasanaethau Busnes	0	3	2	3	8	85	0	101
Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc	13	11	22	3	61	293	1	404
Cyfanswm y cyfan	77	76	126	48	383	2763	66	3539

Cwynion

Derbyniwyd cyfanswm o wyth cwyn yn ystod 2020-2021; derbyniwyd dwy drwy Gomisiynydd y Gymraeg a daeth un yn uniongyrchol at y cyngor

CSG727 - Llythyr Coronafeirws a thaflen Ddiogel ac Iach yn Saesneg yn unig. Roedd yr ymchwiliad i'r gŵyn yn cyrraedd ei derfyn pan ddioddefodd systemau Comisiynydd y Gymraeg seiber-ymosodiad ar ddechrau mis Rhagfyr 2020 a oedd yn golygu bod angen atal pob gweithgarwch. Disgwylir canlyniad yr ymchwiliad o hyd.

CS026 - Posteri, sachau gwastraff ar gyfer ailgylchu/gwastraff gardd ac arwyddion ar gerbydau ailgylchu – 'yn rhoi'r Gymraeg dan anfantais'. Er bod yr holl destun/arwyddion yn ddwyieithog ym mhob achos, mae'r achwynydd o'r farn bod ei leoliad yn 'rhoi'r Gymraeg dan anfantais'. Mae'r ymchwiliad yn parhau.

Derbyniwyd y gŵyn yn uniongyrchol gan y cyngor:

Roedd y gŵyn a dderbyniodd y cyngor yn uniongyrchol yn ymwneud â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Imbiwlans a'r maes gwasanaeth yr ymdrinnir â hi dan broses gwyno'r cyngor.

Imbiwlans – roedd y datganiad cychwynol i'r wasg ar gyfer yr Imbiwlans (a gyhoeddwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) yn cynnwys y cerbyd heb ddecalau dwyieithog. Fodd bynnag, cywirwyd hyn cyn ei ddefnyddio ar 25 Chwefror 2021 a chafodd y cerbyd â decalau cwbl ddwyieithog ei gynnwys mewn datganiadau i'r wasg dilynol.

Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol - roedd y gŵyn yn canolbwyntio ar ddiffyg/swm cyfyngedig/oedi o ran cynnwys Cymraeg ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol adrannau. Rydym yn cydnabod bod problemau gyda chyfrifon cyfryngau cymdeithasol adrannol ac rydym wedi bod yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i ddatblygu a rhoi camau gweithredu ar waith i'w goresgyn, er enghraifft drwy recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r Tîm Cyfathrebu a Gwasanaethau Digidol i ddarparu cymorth ychwanegol; diweddarau'r broses ar gyfer

cyfrifon cyfryngau cymdeithasol newydd er mwyn sicrhau y caiff cyfrifon eu cynnal yn ddwyieithog; diwygio ein harferion a'n canllawiau mewnol i helpu swyddogion gyda physt Cymraeg, er bod cychwyniad y pandemig wedi effeithio ar gynnydd ar y materion hyn.

Gan fod yr achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon â'r ymateb a ddarparwyd dan Gam 1 y Polisi Sylwadau, Canmoliaethau a Chwynion, cynghorwyd yr achwynydd y gellir gofyn am ymchwiliad ffurfiol Cam 2; fodd bynnag, ni dderbyniwyd cais o'r fath hyd yma.

Cwynion sy'n dal i aros am benderfyniad:

CSG 594 - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol – y defnydd o'r Gymraeg yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus. Mae cwblhau'r rhestr wirio i'w defnyddio wrth gynllunio digwyddiadau a mynd iddynt wedi'i ohirio oherwydd cychwyniad y pandemig Coronafeirws ac ymateb dilynol y cyngor yn ogystal ag oherwydd y seiber-ymosodiad a brofwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, caiff y gwaith hwn ei flaenoriaethu i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

CSG 650 – Galwad ffôn i'r rhif ffôn cyffredinol. Roedd y gŵyn yn cyfeirio at y defnydd o'r Saesneg ar alwad ffôn Gymraeg a phroblemau tebyg wrth i bobl gael eu cysylltu â maes gwasanaeth. Penderfynodd yr ymchwiliad fod y cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r safon berthnasol a gosodwyd camau gorfodi i atgoffa staff o ofynion cyfarch galwyr yn briodol. Nid oedd modd anfon cadarnhad bod y camau gorfodi wedi'u cymryd oherwydd yr seiber-ymosodiad a brofwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ac felly nid yw hyn wedi'i ddatrys o hyd.

Cyfle i Ddweud eich Dweud

Croesewir ymholiadau neu adborth ar yr adroddiad hwn drwy:

E-bost: polisi@npt.gov.uk

Post: Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ

Cyfryngau cymdeithasol:



Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau at dudalen Facebook y cyngor:

<https://www.facebook.com/NeathPortTalbotCBC>



Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegwch eich negeseuon at ein tudalen Twitter: [@CyngorCNPT](https://twitter.com/CyngorCNPT)



Dilynwch ni ar Instagram:

<https://www.instagram.com/nptcouncil/>

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch polisi@npt.gov.uk

Mesurau

Cyfieithiadau	2018-2019	2019-2020	2020-2021
Cyfanswm y costau cyfieithu (lle gellir eu nodi)	£52,598	£49,573	£43,072
Nifer y ceisiadau am gyfieithiadau a dderbyniwyd gan yr Uned Gyfieithu	1086	716	662
<p>Mae'r data'n ymwneud â nifer a chost cyfieithiadau a wnaed gan yr Uned Gyfieithu. Nid yw hwn yn gofnod cywir gan fod cyfieithiadau'n cael eu gwneud gan ddarparwyr eraill pryd bynnag y bo angen, y mae eu costau'n cael eu cynnwys mewn costau cyhoeddi neu gyllideb gyffredinol y gwasanaeth.</p> <p>Mae cychwyniad y pandemig a'i effaith ddilynol ar wasanaethau yn ystod 2020-2021 yn debygol o fod wedi effeithio ar nifer y cyfieithiadau y gofynnir amdanynt.</p>			

Galwadau ffôn	2018-2019	2019-2020	2020-2021
Nifer y staff â sgiliau iaith rhugl/gweddol rugl a nodwyd yn y cyfeiriadur gweithwyr	148	126	146
Amser cyfartalog i ateb galwadau ffôn - Saesneg	22 eiliad	52 eiliad	43 eiliad
Amser cyfartalog i ateb galwadau ffôn - Cymraeg	20 eiliad	45 eiliad	51 eiliad
<p>Gan fod angen i staff Siop Dan yr Unto weithio gartref o ganlyniad i'r pandemig, cafodd dau siaradwr Cymraeg eu hadleoli i dîm y Ganolfan Gyswilt a thrwy hynny gynyddu gallu'r tîm i ymdrin â galwadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, lleihaodd nifer y staff dros y cyfnod wrth i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ymgymryd â swydd arall o fewn y cyngor.</p>			

Cyfryngau Cymdeithasol	31.03.19	31.03.20	31.03.21
Twitter			
Dilynwyr - Cyfrif corfforaethol Saesneg	12,957	14,381	15,799
Dilynwyr - Cyfrif corfforaethol Cymraeg	227	306	368
Facebook			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	8,321	10,878	15,882
Cyfrif corfforaethol Cymraeg	37	71	103

E-gylchlythyr Newyddion CNPT	31.03.19	31.03.20	31.03.21
Nifer y tanysgrifwyr i'r Gymraeg E-gylchlythyr	7	11	17
Nifer y tanysgrifwyr i'r Saesneg E-gylchlythyr	403	1221	1922
Nifer y tanysgrifwyr i e-gylchlythyr dwyieithog	14	24	33

Gwefan	2018-2019	2019-2020	2020-2021
Cyfanswm yr ymweliadau â'n gwefan	2,981,002	3,576,298	3,980,097
Ymweliadau â gwedudalennau Cymraeg	29,758	34,045	23,423

Sgiliau Iaith	2018-2019*	2019-2020*	2020-2021
Siarad ac ysgrifennu'n weddol rugl	90	83	77
Siarad yn weddol rugl	65	69	76
Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl	119	102	126
Siarad Cymraeg yn rhugl	53	49	48
Dysgwr Cymraeg	342	347	383

*Adroddwyd yn anghywir ar ddata ar gyfer 2018-2019 a 2019-2020 yn flaenorol (roedd nifer y staff ysgol â sgiliau Cymraeg wedi'i gynnwys ar ddamwain) ac mae'r tabl wedi'i ddiwygio i ddarparu adlewyrchiad mwy cywir o sgiliau iaith ar draws y cyngor.

Gellir priodoli gostyngiad yn y niferoedd dros y tri chyfnod adrodd i nifer o ffactorau, gan gynnwys staff yn ymddeol neu'n ymgymryd â swyddi y tu allan i'r cyngor; ymddeoliad cynnar/colli swydd yn wirfoddol; staff yn ailasesu eu sgiliau iaith ac yn diweddarau eu cofnodion drwy'r porth gweithwyr.

Roedd 2020-2021 yn gyfle i lawer ddilyn cyrsiau e-ddysgu Cymraeg gyda rhai cofnodion hyfforddiant yn cael eu diweddarau o ganlyniad.

Swyddi gwag	2018-2019	2019-2020	2020-2021
Roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol	189	146	83
Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol	29	36	2
Nid oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	487	390	206
Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl penodiad i'r swydd	0	1	0

Cwynion	2018-2019	2019-2020	2020-2021
Nifer y cwynion a dderbyniwyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg	4	7	2
Nifer y cwynion lle penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd angen ymchwilio	2	5	-